



Adroddiad yr Adolygiad o Ddynladdiad Domestig:

Crynodeb gweithredol

Karen

Bu farw: 8 Awst 2013

Tony Blockley
Cyfarwyddwr: Johnston a Blockley Cyf

Dyddiad: Mai 2016

Crynodeb Gweithredol

1 Cyflwyniad

- 1.1 Mae'r crynodeb gweithredol hwn yn amlinellu amgylchiadau marwolaeth Karen ar 8 Awst 2013 a'r Adolygiad o Ddyladdiad Domestig statudol a gynhaliwyd wedyn gan Fwrdd Gwasanaethau Lleol Casnewydd yn Un. Cafodd Karen ei llofruddio gan ei gŵr wedi ymddieithrio, Oedolyn B, a aeth ati wedyn i geisio lladd ei hun.
- 1.2 Treuliodd Oedolyn B gryn amser yn yr ysbyty cyn i'r achos troseddol gael ei gychwyn. Cafodd ei gollfarnu am lofruddiaeth a chafodd ddedfryd o garchar am oes. Mae'n rhaid iddo fwrw o leiaf 26 mlynedd yn y carchar cyn y bydd yn gymwys ar gyfer parôl.
- 1.3 Wrth grynhoi yn y treial, dywedodd Mr Ustus Wyn Williams “*Your plan was to kill her [Karen] and then kill yourself [Adult B and but for the intervention of skilled medics your plan would have succeeded... I am satisfied that when you left the home you had a settled intention to kill your wife.*”
- 1.4 Cyfyngedig fu'r cyswllt â'r asiantaethau cyn y llofruddiaeth ond o'r adolygiad byddai'n ymddangos bod camdriniaeth yn digwydd yn y briodas ers blynyddoedd lawer.
- 1.5 Nid oes dim byd yn yr adolygiad sy'n awgrymu y gallai'r ddyladdiad fod wedi cael ei ragweld neu ei atal.
- 1.6 Yn sgil marwolaeth Karen ymchwiliodd Cwynion Annibynnol yr Heddlu i'r amgylchiadau a gweithredoedd swyddogion yr heddlu a oedd yn ymwneud â nifer o ddigwyddiadau penodol.

Daeth i'r casgliad y byddai camau gweithredu eraill wedi bod yn briodol o dan yr amgylchiadau a nododd fod materion camymddwyn a pherfformiad i swyddogion unigol a nifer o ddiffygion sefydliadol y mae angen i Heddlu Gwent fynd i'r afael â hwy.

- 1.7 Mae'r materion sy'n ymwneud â swyddogion unigol wedi cael eu cwblhau bellach ac ymdriniwyd â'r 'diffygion sefydliadol', a gweithredwyd y newidiadau angenrheidiol i brosesau a gweithdrefnau.
- 1.8 **Roedd PEEL: Effeithiolrwydd yr Heddlu 2015 (Bod yn agored i niwed) Arolygiad o Heddlu Gwent gan Arolygydd Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi (ACEM)** wedi canfod:

fod swyddogion wedi dangos ymagwedd empathetig tuag at ddioddefwyr a bod ganddynt ddealltwriaeth dda o bolisi cam-drin domestig yr heddlu, gan gynnwys yr angen i gymryd camau cadarnhaol.

1.9 Hanes teuluol Karen ac Oedolyn B

Bu Karen ac Oedolyn B yn briod am 27 mlynedd ac roedd ganddynt ddau o blant, Oedolyn D a oedd yn 19 oed a Phlentyn E a oedd yn 16 oed ar adeg marwolaeth

Karen.

- 1.10 Ym mis Ebrill 2013, roedd Karen wedi gadael Oedolyn B a'r cartref priodasol ac wedi symud yn ôl i gyfeiriad ei mam ac wedi dechrau'r broses o ysgaru â'i gwr. Yn dilyn hyn roedd wedi symud i mewn i dŷ gydag Oedolyn C.
- 1.11 Roedd y cysylltiad cyntaf ag unrhyw asiantaeth ynglŷn â cham-drin domestig ym mis Mai 2013, dri mis cyn marwolaeth Karen. Cysylltodd â Heddlu Gwent i roi gwybod bod Oedolyn B yn ei stelcio.
- 1.12 **Digwyddiadau 8 Awst 2013**

Ar ddiwrnod llofruddiaeth Karen roedd Oedolyn B wedi ei dilyn o'i chartref roedd bellach yn ei rannu gydag Oedolyn C ac wedi arwyddo iddi stopio ei char. Dywedodd Oedolyn B wrthi fod ganddo eiddo yn ei gar ac y byddai'n ei roi iddi. Yn ystod y sgwrs hon, dychwelodd Karen i'w char ac yn ôl tystion agored y gist. Yna, ymddengys bod dadl a bod Oedolyn B wedi cydio ynddi, gan dynnu'r llinyn adnabod o amgylch ei gwddf gan achosi iddo dorri a chwmpo i'r llawr.

- 1.13 Tynnodd Oedolyn B ddryll a oedd wedi'i ddal yn gyfreithlon o gist ei gar a saethu Karen ddwywaith yn y cefn gan achosi anafiadau angheuol. Yna, gwnaeth Oedolyn B droi'r dryll arno'i hun ac mewn ymgais i ladd ei hun saethodd ei hun o dan yr ên, gan achosi anafiadau helaeth i'w wyneb.

2 Yr adolygiad

- 2.1 Ar 15 Mawrth 2015, penderfynodd Bwrdd Gwasanaethau Lleol Casnewydd yn Un fod marwolaeth Karen yn cyfiawnhau sefydlu adolygiad o ddynladdiad domestig yn ôl pob golwg.
- 2.2 Bu farw Karen ym mis Awst 2013 ac ar y pryd roedd yn byw yn ardal Bwrdd Gwasanaethau Lleol Casnewydd yn Un. Cafodd Karen ei magu yng Nghasnewydd cyn iddi symud o'r ardal a chadarnhawyd ei bod wedi symud yn ôl i'r ddinas yn ystod y misoedd diwethaf cyn ei marwolaeth. Cafwyd trafodaethau ynghylch yr ardal awdurdod briodol i gynnal yr adolygiad. Yn sgil y penderfyniad mai Casnewydd a ddylai gynnal yr adolygiad cyfarfu'r bwrdd priodol a phenderfynodd ar gwmpas yr adolygiad yn unol â chanllawiau'r Swyddfa Gartref.
- 2.3 Prin iawn oedd y wybodaeth a ddaliwyd gan yr asiantaethau am Karen neu Oedolyn B, ond penderfynwyd pennu cwmpas yr adolygiad i nodi unrhyw wybodaeth neu arwydd o gam-drin nad oedd wedi bod yn hawdd ei adnabod efallai ar y pryd ac a oedd yn taflu goleuni ar y rhesymau dros y digwyddiad ofnadwy ar 8 Awst 2013. Dechreuodd cyfnod yr adolygiad yn 2011, bum mlynedd cyn marwolaeth Karen.
- 2.4 Gofynnwyd i'r asiantaethau canlynol nodi a oeddent yn dal unrhyw wybodaeth am Karen neu Oedolyn B. Os oeddent yn dal gwybodaeth, roeddent yn rhoi cyfrif cronolegol o'u cyswllt â Karen ac Oedolyn B cyn ei marwolaeth:
 - Cyngor Dinas Casnewydd
 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

- Heddlu Gwent
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (ABUHB)
- Newport City Homes
- Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
- Sefydliadau yn y trydydd sector fel y'u nodwyd yn yr adolygiad:
 - Cymorth i Fenywod Casnewydd
 - Cymorth i Fenywod Torfaen
 - Cyngor Cydraddoldeb Ranbarthol De-ddwyrain Cymru
 - Bawso

2.5 Dim ond Heddlu Gwent sydd â chofnod o unrhyw gyswllt â Karen ac Oedolyn B sy'n ymwneud â thrais domestig a cham-drin domestig cyn ei marwolaeth, ac felly dim ond Heddlu Gwent a gwblhaodd adolygiad rheoli unigol. Yn yr adolygiad hwnnw darparwyd

- Cronoleg o'r rhyngweithio â Karen, ei theulu a/neu Oedolyn B
- Pa gamau a gymerwyd a dadansoddiad o'r camau hynny
- A ddilynwyd gweithdrefnau mewnol ac a yw'r gweithdrefnau hynny yn briodol yng ngoleuni marwolaeth Karen
- Casgliadau ac argymhellion o safbwynt yr heddlu

2.6 Cafodd meddygon Karen ac Oedolyn B fel ei gilydd gyswllt â'r ddau ohonynt ond yn achos Karen roedd hyn yn ymwneud â phroblemau meddygol nad oeddent yn gysylltiedig â cham-drin domestig.

2.7 Nododd Oedolyn B ei fod yn teimlo'n isel, gan sôn am bryderon tebyg a oedd yn gysylltiedig â gwahanu ond ar y pryd nid oeddent yn gysylltiedig â cham-drin domestig ac ar ôl myfyrio arnynt yn ystod yr adolygiad hwn ni ellid eu cysylltu â ffactorau sy'n rhagfynegi trais neu gamdriniaeth.

2.8 Cysylltwyd â theulu Karen ac Oedolyn C ond nid oedd neb yn dymuno cymryd rhan yn yr adolygiad. Cysylltwyd ag Oedolyn B hefyd ac nid yw wedi ymateb i'r gwahoddiad i gymryd rhan yn yr adolygiad.

2.9 Ymwneud Heddlu Gwent

Mae tri digwyddiad a oedd yn ymwneud â Heddlu Gwent, y cyntaf ym mis Mai 2013 pan roddodd Karen wybod bod Oedolyn B wedi bod yn ei stelcio. Yn ystod y cyswllt hwn â'r heddlu datgelodd faint o gam-drin a gafwyd o fewn y briodas a'i fod ef wedi dangos ysfa i feddiannu a rheoli yn ystod y cyfnod hwnw a'i bod yn pryderu am fod ganddo ddrylliau.

2.10 Nodwyd y digwyddiad hwn fel risg safonol ond yn ystod ymchwiliad Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu daethpwyd i'r casgliad y dylai'r asesiad fod wedi nodi risg uchel.

2.11 Yn ystod yr ail ddigwyddiad yn ddiweddarach ym mis Mai 2013, dywedodd tad Oedolyn B wrth yr heddlu fod Karen wedi ymosod ar fam Oedolyn B. Ar ôl ymchwiliad gan swyddogion yr heddlu cadarnhawyd bod yr holiadau yn anwir ac o ganlyniad ni chymerwyd unrhyw gamau yn erbyn Karen.

- 2.12 Roedd y digwyddiad olaf cyn ei marwolaeth ym mis Gorffennaf 2013. Cysylltodd Karen â Heddlu Gwent a dywedodd wrthynt fod Oedolyn B wedi gwrthod dychwelyd ei phasbort a'i thrwydded yrru a oedd yn y cartref priodasol.

Ymwelwyd â'r cartref priodasol a siaradodd swyddogion ag Oedolyn B a ddywedodd nad oedd ganddo'r dogfennau ac nad oeddent yn y cartref. Yn ystod yr ymchwiliad dilynol teimlai Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu y byddai camau eraill wedi bod yn briodol ac y dylai'r swyddogion fod wedi cymryd camau cadarnhaol i ganfod lleoliad y dogfenau a dilysrwydd cwyn Karen.

3 Materion allweddol sy'n codi o'r adolygiad

- 3.1 Oherwydd yr ychydig o ymwneud â'r asiantaethau mae'r materion allweddol ond yn ymwneud â Heddlu Gwent. Ystyriwyd mynediad at wasanaethau gan ddiodefwyr a'r gwasanaethau a'r cymorth sydd ar gael, ynghyd â gwybodaeth addysgol am gam-drin a'r effaith ar ddiodefwyr a theuluoedd ond nid yw'r adolygiad hwn wedi nodi bod unrhyw un o'r rhain wedi bod yn rhwystrau yn yr adolygiad penodol hwn.
- 3.2 Nodwyd nifer o faterion allweddol yn yr adolygiad hwn yr ymdriniwyd â hwy hefyd yn ymchwiliad Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu; dylai proses addas a phriodol o asesu risg gael ei chynnal, sy'n ystyried yr holl wybodaeth sydd ar gael a dylai fod sylw i fanylder wrth gwblhau ffurflenni asesu risg.
- 3.3 Dylai'r ffactorau risg uchel allweddol sy'n ymwneud â cham-drin domestig gael eu hadnabod a'u cofnodi er mwyn sicrhau bod gwasanaethau a chymorth priodol yn cael eu rhoi i ddiodefwyr.
- 3.4 Ni ddylai gwybodaeth gael ei derbyn ar ei golwg a dylid craffu'n ddigonol arni er mwyn deall a gwerthuso pa mor gryf a dibynadwy yw'r wybodaeth.
- 3.5 Dylai camau gweithredu cadarnhaol gael eu cymryd wrth ymchwilio i unrhyw achos sy'n ymwneud â lleoliad domestig a dylai hyn gael ei ystyried yn flaenoriaeth.

4 Casgliadau'r adolygiad

- 4.1
- Cyfyngedig fu'r ymwneud â'r asiantaethau cyn marwolaeth Karen ac roedd y tri chysylltiad â Heddlu Gwent wedi digwydd o fewn tri mis i'w marwolaeth.
- 4.2
- Nid oes unrhyw amheuaeth bod Oedolyn B wedi bwriadu lladd ei wraig, Karen. Roedd y llofruddiaeth wedi'i chynllunio. Nid trosedd a gyflawnwyd yn ystod digwyddiad penodol ydoedd, roedd yn drosedd ac wedi cael ei hystyried a'i rhagfwriadu.
- 4.3
- Ar ôl ystyried ymwneud yr heddlu ynghyd â chanfyddiadau ac argymhellion ymchwiliad Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu ni theimlir y byddai nodi Karen fel risg uchel neu reoli'r digwyddiadau yn unol â'r argymhellion wedi cael effaith ar ymddygiad Oedolyn B.
 - Mae'r ystyriaeth hon yn cynnwys sylwadau gan Mr. Ustus Wyn Williams, a

ddywedodd yn ystod treial Oedolyn B “*Your plan was to kill her and then kill yourself and but for the intervention of skilled medics your plan would have succeeded... I am satisfied that when you left the home you had a settled intention to kill your wife.*”

- 4.4 • Nid oes dim byd sy'n awgrymu y byddai trais yn dwysáu ac mae'n amheus a fyddai unrhyw un wedi rhagweld ymddygiad Oedolyn B.
- 4.5 • Mae canfyddiadau ymchwiliad Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu wedi cael eu rhoi ar waith a chanfu asesiad dilynol yn **PEEL: Effeithiolrwydd yr Heddlu 2015 (Bod yn agored i niwed) Arolygiad o Heddlu Gwent gan Arolygydd Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi (ACEM)** fod swyddogion

wedi dangos ymagwedd empathetig tuag at ddioddefwyr a bod ganddynt ddealltwriaeth dda o bolisi cam-drin domestig yr heddlu, gan gynnwys yr angen i gymryd camau cadarnhaol.

5 **Argymhellion yr adolygiad**

- 5.1 Yn yr adolygiad hwn tynnwyd sylw at nifer o faterion a nodwyd gan ymchwiliad annibynnol gan Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu. Mae Heddlu Gwent wedi gweithredu ar yr argymhellion a wnaed yn yr adroddiad hwnnw ac o ganlyniad nid oes dim byd yn yr adolygiad hwn o'r dadansoddiad, y gwersi a ddysgwyd na'r casgliadau sydd eto i'w weithredu.